**Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal EOC 08-02(p8)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 12 Rhagfyr 2002 |
| **Amser:** | 9.00am |
| **Lleoliad:** | Committee Rooms 3 and 4 |
| **Teitl:** | Hyfforddiant ar Faterion Cydraddoldeb ac Anabledd yn Cadw |

## Hyfforddiant ar Faterion Cydraddoldeb ac Anabledd yn Cadw

### Diben a Chrynodeb

1. Cyflwyno adroddiadau ar gynnydd – mae bron pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant sylfaenol, tra bod mentrau mwy penodol wedi'u datblygu i hysbysu staff sy'n uniongyrchol gysylltiedig â materion anabledd.

### Amseru

2. I'w ystyried yn y cyfarfod ar 5 Rhagfyr.

### Ystyriaeth

3. Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2001, rhoddodd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ystyriaeth i ganllawiau drafft Cadw ar ddarparu mynediad corfforol i adeiladau hanesyddol a gofynnodd am adroddiad ar hyfforddiant cysylltiedig o fewn Cadw ar yr adeg honno.

4. Ers hynny, mae'r canllawiau – a luniwyd ar gyfer darparwyr gwasanaethau, awdurdodau lleol ac eraill – wedi'u cyhoeddi. Cawsant eu llunio ar ôl ymgynghori â'r Comisiwn Hawliau Anabledd ac Anabledd Cymru. Mae'r canllawiau wedi cael croeso mawr ac yn cael eu defnyddio fel model ar gyfer canllawiau newydd English Heritage, sy'n cael eu paratoi ar hyn o bryd. Mae'r canllawiau ar gael fel copi caled neu ar wefan Cadw, ac maent wedi'u dwyn at sylw pob aelod o staff Cadw.

5. Mae Cadw yn cyflogi tua 220 o staff, er bod y niferoedd yn amrywio oherwydd y broses recriwtio tymhorol ar gyfer yr henebion. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd bron pob aelod o staff ar bob lefel hyfforddiant ar ofynion y DDA ac ymwybyddiaeth o anabledd fel rhan o'r hyfforddiant ar gydraddoldeb, a oedd hefyd yn cwmpasu materion hil a rhyw. Ni fu'n bosibl i nifer fach o'r staff fynychu'r sesiynau oherwydd absenoldeb, ond caiff hyfforddiant ei ddarparu pan fydd cyrsiau ar gael. Yn ogystal â hyn, mae uwch staff a chynrychiolwyr Cadw yn ein

pedair cangen wedi derbyn hyfforddiant gan y cwmni ymgynghorol RMS ar faterion anabledd, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth, ymddygiad safonol ac astudiaethau achos sy’n gysylltiedig â mynediad i’r henebion. Bwriedir datblygu agweddau arbennig ar yr hyfforddiant hwn a’i ehangu i gynnwys yr holl staff gwarchodol parhaol gan fod tymor yr haf wedi dod i ben ac y gellir eu rhyddhau o’u dyletswyddau ar y safleoedd, a chyn dechrau tymor 2003. Cynhelir cyrsiau byr ar gyfer staff tymhorol yn ystod yr haf flwyddyn nesaf.

6. Mae materion sy’n ymwneud â mynediad yn chwarae rhan allweddol yng ngweithgareddau Cadw, a chânt eu hamlygu’n arbennig drwy waith y rheini sy’n delio â chadw a chyflwyno’r henebion a chyflwyno caniatâd adeiladau rhestredig. Nifer fach o staff a gyflogir o fewn y meysydd hyn, gan gynnwys arbenigwyr â chymwysterau proffesiynol a staff gweinyddol. Ym mis Chwefror 2002, bu’n pensaer sydd fwyaf cysylltiedig â’r materion mynediad yn mynychu cwrs tridiau ar ymgynghori ar fynediad a gynhaliwyd gan y Ganolfan ar gyfer Amgylchedd Hygyrch (CAE) – mae’r CAE hefyd yn gweinyddu’r Gofrestr Genedlaethol ar gyfer Ymgynghorwyr ar Fynediad (NRAC) , sy’n gorff rheoleiddio a noddir gan y llywodraeth. Mae gan y Gofrestr ddwy radd o aelodaeth: archwiliwr mynediad, sy’n gymwys i nodi diffygion o ran mynediad, ac ymgynghorydd mynediad, a all nodi ac awgrymu atebion ymarferol i wella mynediad. Roedd yr hyfforddiant a fynychwyd ganddo yn rhan o’r broses o gyflawni cymhwyster fel ymgynghorydd mynediad, sydd ond ar gael i bobl a fu’n gweithio ar faterion mynediad am o leiaf blwyddyn. Mae’r broses dau gam yn cynnwys paratoi archwiliadau ar fynediad ar gyfer eu gwerthuso gan CAE, yn yr achos hwn, Castell Rhaglan ac Abaty Tyndyrn. Y gobaith yw y bydd yn cyflawni’r cymhwyster erbyn diwedd y flwyddyn. Mae’r wybodaeth a enillwyd yn cael ei rhannu gyda staff eraill yn y meysydd hyn, sydd hefyd wedi cyfrannu at yr archwiliadau. Ers cyhoeddi canllawiau Cadw ar fynediad corfforol i adeiladau hanesyddol, mae’r trafodaethau ar y newidiadau arfaethedig y mae ein penseiri yn gysylltiedig â hwy wedi llwyddo i gyflawni’r amcanion mynediad cytûn tra’n sicrhau bod ansawdd yr adeilad yn cael ei ddiogelu’n ddigonol.

7. O ran yr henebion sydd o dan ofal y Cynulliad, yn hytrach na dibynnu’n llwyr ar ddatblygu arbenigedd mewnol ac er mwyn pwyso a mesur cysyniadau yn ogystal ag atebion, rydym wedi gwahodd tendrau ar gyfer tair astudiaeth mynediad peilot, sy’n canolbwyntio ar Gestyll Cas-gwent a Chaerffili ac Abaty Tyndyrn. Roeddem o’r farn y byddai’n werth ailddefnyddio achos Tyndyrn, fel gwiriad ansawdd cilyddol o’r ddwy ymagwedd. Yn sgîl y canlyniadau, byddwn yn ymestyn y broses archwilio i bob un o’r 28 o henebion y mae staff yn gweithio arnynt gan ddatblygu rhaglen hyfforddi mwy ffurfiol ar gyfer staff sy’n ymdrin â’r materion hyn, yn seiliedig ar yr astudiaethau achos a gwblhawyd.

8. Mae un o’n harolygwyr archeoleg hefyd wedi bod yn cynnal sesiynau trafod o fewn Arolygiaeth Cadw a chyda chydweithwyr o’r Gangen Cyflwyno er mwyn ystyried ffyrdd y gellir addasu’r broses o gyflwyno henebion er budd pobl anabl. Mae hyn yn dilyn awgrym a wnaed gan ymgynghorwyr sydd wedi’n cynghori y gellir cwrdd ag amcanion mewn achosion lle na all pobl anabl gael mynediad i rai rhannau o henebion drwy ddehongli’r henebion mewn ffyrdd gwahanol neu ychwanegol yn y mannau hynny sydd yn hygyrch.

**Cydymffurfio**

9. Mae’r papur er gwybodaeth ac nid oes unrhyw faterion cydymffurfio.

**Camau gweithredu ar gyfer y Pwyllgor**

10. Nodi adroddiad Cadw.

**Pwynt Cyswllt**

Tom Cassidy, Prif Weithredwr Cadw: Welsh Historic Monuments.

Tachwedd 2002